Banc

Pecyn cymorth rhanddeiliaid

Banc Datblygu Cymru

Amdanom ni

Rydym yn ariannu busnesau yr ydym yn meddwl fydd o fudd i Gymru a'i phobl. Y rhai a fydd yn creu crychdonnau twf - y rhai sy'n fwy na model busnes da neu syniad gwych.

Rydym yn ariannu busnesau cyfrifol - y rhai sydd â safonau cymdeithasol, moesegol ac amgylcheddol cryf, yn ogystal ag addewid masnachol gwirioneddol.

Drwy ddarparu cyllid cynaliadwy, effeithiol lle mae'r opsiynau wedi ymddangos yn gyfyngedig, rydym yn dod ag uchelgeisiau'n fyw ac yn tanwydd posibiliadau i bobl, busnesau a chymunedau yng Nghymru a thu hwnt.

O uchelgais i'r uchelfannau

Banc

Ein pwrpas

Dod ag uchelgeisiau yn fyw a thanio posibiliadau i bobl, busnesau a chymunedau yng Nghymru.

Ein cenhadaeth

Datgloi potensial yn economi Cymru drwy gynyddu'r cyflenwad a hygyrchedd cyllid cynaliadwy ac effeithiol.

Banc

Nodau

— Darparu cyllid dyled ac ecwiti gydag effaith gymdeithasol

— Hyrwyddo a datblygu dyfodol gwyrdd yng Nghymru

— Rhagoriaeth cyflenwi, cwsmer-gyntaf, cynaliadwyedd ariannol

Banc

Naratifau brand

Oes oes gennych cynnwys ar eich wefan, neu os rydych yn awyddus i drafod y Banc Datblygu, defnyddiwch un o'r naratifiau brand isod.

50 gair

Mae Banc Datblygu Cymru yn rhoi potensial Cymru wrth galon ei benderfyniadau. Mae'n ariannu busnesau a fydd yn cyfrannu'n ariannol, yn gymdeithasol, yn foesegol ac yn amgylcheddol i'n cymunedau ac i'r byd ehangach -bob dydd yn hybu posibiliadau ac yn dod ag uchelgeisiau'n fyw.

100 gair

Mae Banc Datblygu Cymru rhoi potensial Cymru wrth gallon ei benderfyniadau.

Mae'n yn ariannu busnesau a fydd o fudd i Gymru a'i phobl. Y rhai fydd yn creu twf ehangach. Y rhai sy'n fwy na model busnes da neu syniad gwych. Rydym yn ariannu busnesau cyfrifol - y rhai sydd â gwerthoedd cymdeithasol, moesegol ac amgylcheddol cryf, yn ogystal ag addewid masnachol.

Drwy ddarparu cyllid cynaliadwy ac effeithiol, lle mae'r opsiynau wedi ymddangos yn gyfyngedig, mae'r banc datblygu yn dod ag uchelgeisiau'n fyw ac yn hybu posibiliadau i bobl, busnesau a chymunedau yng Nghymru a thu hwnt.

250 gair

Mae Banc Datblygu Cymru yn rhoi potensial Cymru wrth galon ei benderfyniadau.

Mae manteision yn dod yn sgil hynny. Drwy wneud cyllid cynaliadwy, effeithiol yn hygyrch, mae'r banc yn dod ag uchelgeisiau yn fyw ac yn hybu posibiliadau i bobl, busnesau a chymunedau yng Nghymru. Mae'n helpu busnesau i gychwyn, tyfu a chyrraedd yr uchelfannau. Mae manteision y ffyniant hwn yn cyffwrdd â ni i gyd.

Mae'r Banc Datblygu yn edrych ar y 'llun mawr', s'yn golygu mae'n aml yn gallu helpu gyda chyllid dyled ac ecwiti pan mae'r opsiynau'n ymddangos yn gyfyngedig. Mae'n gwneud popeth o fewn ei allu i wneud gwahaniaeth cadarnhaol, gan ddod â'r bobl iawn ynghyd a chydweithio i ddod o hyd i ffordd o wneud i bethau ddigwydd i fusnesau Cymru ac i Gymru.

Mae timau y Banc Datblygu wedi'u gwreiddio mewn cymunedau lleol, allan o swyddfeydd gweithio'n rhanbarthol - sy'n golygu bod cwsmeriaid yn cael mynediad uniongyrchol at y rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol ac at lwybrau cymorth. Mae Banc Datblygy Cymru yn deall beth sy'n digwydd yn ein pentrefi, trefi a dinasoedd – yr heriau a'r cyfleoedd. Mae'n gweld y potensial ar gyfer twf busnes fel catalydd ar gyfer gwella bywydau a chymunedau yng Nghymru a thu hwnt.

Ac nid addewid masnachol yn unig yr ydym y mae'r banc yn ei edrych amdano mewn busnesau sy'n ceisio cefnogaeth. Mae'r banc yn ariannu'r rhai syddwedi ymrwymo i safonau cymdeithasol, moesegol ac amgylcheddol. Mae arferion busnes cyfrifol yn bwysig i Banc Datblygu CYmru, ac mae'n rhaid iddynt fod o bwys i'r rhai y mae'r banc yn eu helpu i dyfu.

Banc

Logo

Prif logo

Dyma'r fersiwn a ffefrir o'n logo a dylid ei ddefnyddio lle bo modd.

Dylid ei ddefnyddio lle arddangosir enw llawn Banc Datblygu Cymru yn llawn o fewn yr un cyd-destun.

Er enghraifft
Ar dudalen gwefan sy'n cynnwys proffil ar y Banc Datblygu.

Logo eilradd

Dylid defnyddio'r logo eilradd lle nad yw enw llawn Banc Datblygu Cymru yn cael ei arddangos yn llawn o fewn yr un cyd-destun.

Er enghraifft
Ar ddolen noddwr, ochr yn ochr gyda logos noddwyr.

Banc

Banc

Banc Datblygu Cymru
Development Bank of Wales

Cyfryngau cymdeithasol

Rydym yn rhannu postiadau, fideos ac animeiddiadau yn rheolaidd ar draws ein sianeli cyfryngau cymdeithasol. Trwy rannu a rhyngweithio â ein bostiadau, gallwch cefnogi ein gwaith a'n cwsmeriaid.

Dilynwch ni ar gyfryngau cymdeithasol

Facebook
@bancdatcymru

Trydar
@bancdatcymru

LinkedIn
@Banc Datblygu Cymru

Newyddion - Gower Electric Bikes

Newyddion - Abbey Glass

Banc

Astudiaethau achos

Gwelwch sut yr ydym yn cefnogi busnesi wahanol dros ledled Cymru.

Mae astudiaethau achos ar gael ar ein wefan, yn ogystal a fideos ar YouTube.

bancdatblygu.cymru /adnoddau /astudiaethau achos

YouTube
@Banc Datblygu Cymru

Lumberjack Axe Throwing

Bargoed Farm

Banc

Banc

Mewn Partneriaeth â
Llywodraeth Cymru
In Partnership with
Welsh Government

Banc Datblygu Cymru ccc yw cwmni daliannol Grŵp sy'n masnachu fel Banc Datblygu Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys nifer o is-gwmnïau sydd wedi'u cofrestru gydag enwau gan gynnwys y llythrennau BDC. Mae Banc Datblygu Cymru ccc yn gwmni cyllid datblygu sy'n eiddo i Weinidogion Cymru yn gyfan gwbl ac nid yw'n cael ei awdurdodi na'i reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoli Darbodus (ARhD) nac yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA). Mae gan Fanc Datblygu Cymru dri o is-gwmnïau sy'n cael eu hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr AYA. Noder os gwelwch yn dda nad yw Banc Datblygu Cymru ccc nac unrhyw un o'i is-gwmnïau yn sefydliadau bancio ac nid ydynt yn gweithredu fel y cyfryw. Mae hyn yn golygu nad yw unrhyw un o endidau'r grŵp yn gallu derbyn adneuon gan y cyhoedd. Gellir dod o hyd i siart strwythur cyfreithiol cyflawn ar gyfer Banc Datblygu Cymru ccc ar Bancdatblygu.cymru.